# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 8 a 15 Chwefror 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Alun Ffred Jones:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynnydd gyda Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau? (WAQ49259)

**Alun Ffred Jones:** Sawl swydd newydd sydd wedi'i chreu gan gwmnïau sydd wedi derbyn cymorth gan y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau? (WAQ49260)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Bydd y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau yn dadansoddi ac yn adolygu ei flwyddyn berfformio gyntaf yn haf 2007, yn cynnwys y swyddi a grëwyd a gwelliannau o ran cystadleurwydd busnes. Bydd y canlyniadau llawn yn cael eu cyhoeddi. Mae adborth uniongyrchol oddi wrth gleientiaid eisoes yn dweud wrthym fod y banc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a hynny mewn modd amserol.

**Alun Ffred Jones:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynnydd gyda Busnes Rhyngwladol Cymru? (WAQ49261)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phenaethiaid adrannau a chyfarwyddwyr lle byddwn yn trafod amrywiaeth eang o faterion, yn cynnwys perfformiad a chynnyrch. Mae Busnes Rhyngwladol Cymru yn rhan o'r trafodaethau hyn ac yr wyf yn fodlon bod y sefydliad newydd hwn, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi gwneud cynnydd sylweddol ers yr uno fis Ebrill diwethaf. Mae'n dod â swyddi mewnfuddsoddi newydd i Gymru ac yn helpu cwmnïau yng Nghymru i ddechrau masnachu'n rhyngwladol mewn marchnadoedd newydd.

**Alun Ffred Jones:** Sawl ymweliad dramor y mae'r Gweinidog wedi'i wneud yn ystod y 12 mis diwethaf fel rhan o'i ddyletswyddau gweinidogol ac, o'r rhain, i faint yr aeth ar awyren ac ar faint o'r teithiau hyn y teithiodd yn yr adran fusnes neu ddosbarth cyntaf? (WAQ49276)

**Andrew Davies:** Mae'r tabl isod yn dangos fy ymweliadau dramor dros y 12 mis diwethaf.

| **Dyddiad/au Teithio** | **Cyrchfan** | **Dosbarth Hedfan** |
|---|---|---|
| 18/07/06-19/07/06 | Cork | Economi |
| 19/02/06-23/02/06 | Toronto/Chicago | Busnes |
| 06/11/06-06/11/06 | Brwsel | Economi |

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arian a ddyrannodd yn ei gyllideb i ailagor cyffordd yr A470 yn Nhrefforest i gyfeiriad y de? (WAQ49280)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi darparu unrhyw arian ar gyfer ailagor cyffordd yr A470 yn Nhrefforest i gyfeiriad y de.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i ailagor cyffordd yr A470 yn Nhrefforest i gyfeiriad y de? (WAQ49281)

**Andrew Davies:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ailagor cyffordd yr A470 yn Nhrefforest i gyfeiriad y de. Cafodd y gyffordd ei chau am resymau diogelwch yn y 1990au cynnar fel rhan o'r gwaith yr ymgymerodd yr awdurdod lleol ag ef bryd hynny ar gynllun ffordd liniaru fewnol Pontypridd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ49011 i WAQ49038, a wnaiff y Gweinidog roi amcangyfrif o gyfradd modiwleiddio gwirfoddol? (WAQ49196)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Bydd modiwleiddio gwirfoddol cronedig yn ffynhonnell gyllido i'r cynllun olynu. Hyd nes y ceir cytundeb ar lefel yr UE ynglyn â gweithredu'r gyfundrefn modiwleiddio gwirfoddol o 2007, a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sefyllfa i bennu manylion ariannol y cynllun olynu ar eu gwedd derfynol, mae'n rhy gynnar i ddyfalu pa gyfraddau gwirfoddol allai gael eu cymhwyso. Bydd y cyfraddau gwirfoddol yn ychwanegol at y gyfundrefn orfodol. Digon yw dweud ei bod yn debygol y bydd yn rhaid wrth fodiwleiddio gwirfoddol.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ49011 i WAQ49038, a wnaiff y Gweinidog ddatgan ble mae refeniw a gasglwyd o fodiwleiddio gorfodol wedi'i gynnwys yn y tablau? (WAQ49197)

**Carwyn Jones:** Mae modiwleiddio gorfodol yn cael ei gynnwys yn narpariaeth gyllido'r 'UE'.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ49011 i WAQ49038, a wnaiff y Gweinidog ddatgan ble mae cyllid cyfatebol gan y Trysorlys wedi'i gynnwys yn y tablau? (WAQ49198)

**Carwyn Jones:** Fel yr eglurwyd o'r blaen, mae cyllid cyfatebol y Trysorlys o fewn y terfyn adrannol cyffredinol a osodir i Lywodraeth y Cynulliad ym mhob adolygiad o wariant. Nid yw'r swm hwn yn cael ei neilltuo. Yr oedd terfyn gwariant cyllideb Tir Cymru 2006-07 yn cynnwys arian cyfatebol. At ddibenion y tablau, mae darpariaeth llinell wariant Tir Cymru yn y gyllideb wedi'i chynnwys yn y llinell 'ddomestig' ar gyfer y mesurau perthnasol dan echel 2.

Mae penderfyniadau am y lefelau arian cyfatebol yn y dyfodol yn dibynnu ar y canlyniad ar lefel yr UE o ran y gyfundrefn modiwleiddio gwirfoddol o 2006 a'r adolygiad cyfredol o wariant.

**Elin Jones**: Yn dilyn ei ateb i WAQ49011 i WAQ49038, a wnaiff y Gweinidog ddatgan ble mae cyllid cyfatebol o Ewrop wedi'i gynnwys yn y tablau? (WAQ49199)

**Carwyn Jones:** Mae'r lefel ragamcanedig o gyllid cyfatebol gan yr UE i'w weld yn llinell yr 'UE' yn erbyn y mesurau unigol dan bob echel.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ49011 i WAQ49038, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw cyllid cyfatebol Ewropeaidd ond yn berthnasol i brosiectau a gyllidir gan fodiwleiddio gwirfoddol, ac a yw'n gallu datgan cyfradd yr arian cyfatebol? (WAQ49200)

**Carwyn Jones:** Mae cyllid cyfatebol yr UE yn berthnasol i bob un o'r pedair echel o dan y cynllun olynu, pa un a yw'r cyllid ar gyfer mesur unigol yn dibynnu ar fodiwleiddio gwirfoddol ai peidio.

Y cyfraddau cyllido rhagamcanedig yw:

Echel 1 ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd cydgyfeirio 2007 i 2013 cyfartaledd 50 y cant cyfartaledd ardaloedd cydgyfeirio 35 y cant;

Echel 2 ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd cydgyfeirio cyfartaledd 20 y cant cyfartaledd ardaloedd cydgyfeirio 50 y cant;

Echel 3 ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd cydgyfeirio cyfartaledd 50 y cant cyfartaledd ardaloedd cydgyfeirio 73 y cant;

Echel 4 ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd cydgyfeirio cyfartaledd 50 y cant cyfartaledd ardaloedd cydgyfeirio 76 y cant.

**Elin Jones**: A wnaiff y Gweinidog ddatgan y gwir wariant ar Dir Cynnal ar gyfer pob blwyddyn ers ei gyflwyno? (WAQ49205)

**Carwyn Jones:** Cyflwynwyd cynllun Tir Cynnal yn 2005. Dechreuodd taliadau dan flwyddyn gynllun 2005 ym mis Gorffennaf 2006, a hyd yma yr ydym wedi talu £5.77 miliwn.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi amcangyfrif o lefelau ymuno â (i) Tir Gofal, (ii) Tir Cynnal (iii) cynllun organig ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2006 a 2013? (WAQ49206)

**Carwyn Jones:** O ran Tir Gofal, yr oedd 3,044 o gytundebau wedi cael eu negodi erbyn diwedd 2006. Yn sgil ailagor y cynllun i geisiadau newydd yn ddiweddar, disgwylir y bydd 700 pellach o gytundebau wedi cael eu sefydlu erbyn 2009. O ran Tir Cynnal, y sefyllfa yw 3,367 ac 8,000 y naill a'r llall, ac mae'r gweithgarwch o dan y cynllun ffermio organig oddeutu 773 a 1,000.

Bydd y sefyllfa yn y tymor hwy yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, yn ddiweddarach eleni, o echel 2 o'r cynllun datblygu gwledig.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer deiliaid cytundeb y cynllun cynnal organig ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49267)

**Carwyn Jones:** Cafodd y cynllun cynnal organig ei gyflwyno ar 1 Mawrth 2004. Ers y dyddiad hwnnw mae 312 o gyfranogwyr wedi ymuno â'r cynllun fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **2004** | **2005** | **2006** |
|---|---|---|---|
| **Nifer o Gyfranogwyr** | 15 | 187 | 110 |

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r holl wahanol amrywiadau a blannwyd adeg ailblannu ystâd goedwig y Cynulliad yn ystod tymor plannu Gorffennaf 1999 i Fehefin 2000, a rhoi manylion canran y cyfanswm y mae pob amrywiad yn ei gynrychioli? (WAQ49268)

**Carwyn Jones:** Mae'r manylion fel a ganlyn:

| **Math o Goed** | **% o'r Holl Blannu Gorffennaf 1999 i Fehefin 2000** |
|---|---|
| Ffynidwydd | 2.15 |
| Pyrwydd sitca | 27.62 |
| Pyrwydd sitca Washington | 30.38 |
| Pinwydd Corsica | 3.23 |
| Pinwydd polion | 0.1 |
| Llarwydd hybrid | 1.75 |

| | |
|---|---|
| Llarwydd Japan | 18.24 |
| Sbriws Norwy | 5.47 |
| Ffynidwydd Douglas | 5.34 |
| Conwydd eraill | 4.32 |
| Derw digoes | 0.46 |
| Gwern | 0.1 |
| Onn | 0.1 |
| Ceirios | 0.01 |
| Bedw | 0.4 |
| Ffawydd | 0.03 |
| Criafol | 0.1 |
| Mathau llydanddail eraill | 0.2 |
| **Cyfanswm** | 100 |

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r holl wahanol amrywiadau a blannwyd adeg ailblannu ystâd goedwig y Cynulliad yn ystod tymor plannu Gorffennaf 2005 i Fehefin 2006, a rhoi manylion canran y cyfanswm y mae pob amrywiad yn ei gynrychioli? (WAQ49269)

**Carwyn Jones:** Mae'r manylion fel a ganlyn.

| **Math o Goed** | **% o'r Holl Blannu Gorffennaf 2005 i Fehefin 2006** |
|---|---|
| Ffynidwydd | 1.07 |
| Pyrwydd sitca | 0.56 |
| Pyrwydd sitca Washington | 33.31 |
| Pyrwydd sitca wedi'u gwella | 21.89 |
| Pinwydd polion | 2.39 |
| Llarwydd hybrid | 3.05 |
| Llarwydd Japan | 9.17 |
| Sbriws Norwy | 4.13 |
| Ffynidwydd Douglas | 4.31 |
| Conwydd eraill | 0.16 |
| Derw coesynnog | 1.93 |
| Derw digoes | 8.66 |
| Gwern | 0.21 |
| Onn | 2.24 |
| Ceirios | 0.44 |
| Helyg | 0.18 |

| | |
|---|---|
| Bedw | 3.43 |
| Mathau llydanddail eraill | 2.87 |
| **Cyfanswm** | 100 |

Dylid nodi bod ardal gynyddol o dir oedd wedi cael ei glirio o goed wedi cael ei hailstocio erbyn hyn gyda choed llydanddail brodorol drwy annog atgynhyrchu naturiol. Mae’r dull hwn yn cymryd mwy o amser i ymsefydlu ac mae’n anodd felly rhoi ffigur manwl i ddweud faint yn union o ystâd y Cynulliad y mae’n ei gynrychioli erbyn hyn ond mae’n ychwanegiad sylweddol at y ffigurau yn y tabl uchod.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion gwerth y grant ar gyfer pob un o dderbynwyr y grantiau marchnata bwyd a phrosesu, a nifer y swyddi a grëwyd gyda phob grant? (WAQ49270)

**Carwyn Jones:** Ers i’r cynllun grantiau prosesu a marchnata ddechrau yn 2001, mae dros 300 o grantiau wedi cael eu dyfarnu. Er nad yw creu swyddi yn un o amcanion allweddol y cynllun, mae gwybodaeth yn cael ei chasglu oddi wrth bob un sydd yn cael grant ac yr wyf yn atodi rhestr gyda’r wybodaeth hon.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau ariannol i gyllideb y Cynulliad yn sgil talu cyflog cyfartal i’r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig? (WAQ49186)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Bydd y costau yn cael eu rheoli o fewn y terfyn gwariant adrannol wrth i’r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth cyflog cyfartal.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i’r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? (WAQ49187)

**Sue Essex:** Mae’r dyraniad yn y gyllideb i’r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn £3.8 biliwn yn 2006-07. Mae hyn yn gynnydd o 7.6 y cant o’i gymharu â chyllideb 2005-06. Mae’r cynnydd hwn yn cynnwys trosglwyddiadau mewn perthynas â gofal cymdeithasol ac addysg.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jonathan Morgan:** Sawl ymgynghoriad meddyg teulu sydd wedi digwydd ar draws Cymru ymhob blwyddyn er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad cyffredinol yn ogystal ag yn ôl y byrddau iechyd lleol? (WAQ49258)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei chasglu. Mae arolwg iechyd Cymru 2003-04 yn amcangyfrif bod oedolion yn ymgynghori â meddyg teulu bum gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn 2004-05 cynyddodd hyn i chwe gwaith y flwyddyn.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y triniaethau a gynigiwyd dan gynllun yr ail gynnig ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49272)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y triniaethau a wrthodwyd dan gynllun yr ail gynnig ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49264)

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y triniaethau a wnaethpwyd dan gynllun yr ail gynnig mewn lleoliadau y tu allan i GIG Cymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49266)

**Brian Gibbons:** Dechreuodd cynllun yr ail gynnig ar 1 Ebrill 2004. Isod rhoddir y nifer o driniaethau a gynigiwyd, triniaethau a wrthodwyd a thriniaethau y tu allan i GIG Cymru ym mhob blwyddyn er mis Ebrill 2004.

| | 2004-05 | 2005-06 | Ebr 2006 – Rhag 2006 | Cyfanswm (Ebr 2004 – Rhag 2006) |
|---|---|---|---|---|
| Gwnaethpwyd ail gynnig | 18,633 | 6,936 | 4,897 | 30,466 |
| Gwrthodwyd ail gynnig | 8,082 | 1,668 | 1,312 | 11,062 |
| Triniaethau y tu allan i GIG Cymru | 4,381 | 2,737 | 1,402 | 8,520 |

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49265)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth gymaradwy a chyson ar gael cyn mis Tachwedd 2002. Mae’r nifer o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru fel y’i cofnodir yn y gronfa ddata oedi wrth drosglwyddo data adeg y cyfrifiad bob mis er mis Tachwedd 2002 i’w weld yn y tabl isod.

Mae’r ffigurau isod yn cynnwys oedi ym mhob sefydliad lle nad yw unigolyn yn y lleoliad mwyaf priodol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae unigolyn yn barod i gael ei symud i sefydliad GIG arall i gael triniaeth sy’n parhau. Gall hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes lle addas ar gael neu lle mae unigolyn yn gwrthod symud i sefydliad a fyddai’n diwallu ei anghenion, fel y’u haseswyd, orau.

Ciplun yw’r cyfrifiad misol sy’n cofnodi unigolion sy’n wynebu oedi amhriodol ar adeg neilltuol o’r mis. Mae unigolion sydd wedi wynebu oedi o fwy na mis calendr yn cael eu cynnwys ym mhob cyfrifiad dilynol yn ystod y cyfnod o oedi. Nid yw felly’n bosibl darparu cyfanswm cyfun am bob blwyddyn gan y byddai hynny’n golygu bod rhai unigolion yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith.

| | **Ion** | **Chwe** | **Maw** | **Ebr** | **Mai** | **Meh** | **Gorff** | **Awst** | **Medi** | **Hyd** | **Tach** | **Rhag** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2002 | | | | | | | | | | | 1,067 | 987 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2003 | 1,071 | 994 | 1,116 | 1,011 | 1,079 | 1,002 | 1,075 | 1,075 | 1,116 | 1,008 | 1,113 | 988 |
| 2004 | 1,096 | 1,032 | 1010 | 934 | 906 | 856 | 795 | 829 | 785 | 790 | 798 | 738 |
| 2005 | 806 | 764 | 700 | 689 | 721 | 674 | 670 | 685 | 717 | 699 | 688 | 621 |
| 2006 | 659 | 610 | 618 | 601 | 611 | 612 | 574 | 646 | 731 | 722 | 754 | 642 |

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi’r refeniw a gasglwyd o daliadau cyfalaf i ymddiriedolaethau’r GIG ymhob blwyddyn er 1999? (WAQ49273)

**Brian Gibbons:** Tâl yw’r refeniw a gesglir sy’n adlewyrchu rhagolygon cost cyfalaf sy’n cael ei ddefnyddio gan ymddiriedolaethau GIG. Mae’n cael ei dalu fel difidendau cyfalaf difidend cyhoeddus. Caiff y tâl ei gyfrifo ar y gyfradd wirioneddol a bennir gan y Trysorlys, sy’n 3.5 y cant ar hyn o bryd. Newidiodd y sail er mwyn cyfrifo difidendau cyfalaf difidend cyhoeddus gan ddod i rym o 2004-05. Caiff y difidendau sy’n daladwy eu cyfrifo ar sail cost wirioneddol cyfalaf, nid amcangyfrifon wedi eu haddasu fel o’r blaen.

**Difidendau Cyfalaf Difidend Cyhoeddus 1999-2000 i 2005-06**

| | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Difidendau Cyfalaf Difidend Cyhoeddus yn Daladwy | 81,318 | 73,988 | 73,064 | 86,058 | 66,082 | 59,084 | 61,326 |

Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno Ymddiriedolaethau GIG Cymru

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr ymgynghorwyr GIG (i) amser llawn a (ii) rhan amser mewn ysbytai ymhob blwyddyn er 1999? (WAQ49274)

**Brian Gibbons:** Rhodir y wybodaeth yn y tabl isod.

**Ymgynghorwyr ysbyty (meddygol a deintyddol) (a)**

| | Nifer | | | Yn cyfateb i amser llawn |
|---|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfanswm | |
| 1999 | 975 | 403 | 1,378 | 1,220.7 |
| 2000 | 975 | 466 | 1,441 | 1,250.5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2001 | 1,078 | 393 | 1,471 | 1,312.1 |
| 2002 | 1,162 | 364 | 1,526 | 1,376.9 |
| 2003 | 1,126 | 441 | 1,567 | 1,416.9 |
| 2004 | 1,206 | 514 | 1,720 | 1,549.2 |
| 2005 | 1,382 | 419 | 1,801 | 1,626.9 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad blynyddol staff meddygol a deintyddol

(a) Staff mewn swydd ar 30 Medi.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y nyrsys GIG (i) amser llawn a (ii) rhan amser ymhob blwyddyn er 1999? (WAQ49275)

**Brian Gibbons:** Rhodir y wybodaeth yn y tabl isod.

**Nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd (a)**

| | Nifer | | | Yn cyfateb i amser llawn |
|---|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | | Amser llawn |
| 1999 | 16,109 | 16,599 | 32,708 | 23,972.7 |
| 2000 | 16,233 | 18,936 | 35,169 | 24,313.6 |
| 2001 | 16,534 | 18,987 | 35,521 | 24,750.5 |
| 2002 | 17,107 | 20,271 | 37,378 | 25,506.3 |
| 2003 | 18,001 | 21,632 | 39,633 | 26,697.3 |
| 2004 | 18,661 | 23,014 | 41,675 | 27,406.7 |
| 2005 | 19,179 | 24,036 | 43,215 | 28,151.7 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad blynyddol staff anfeddygol.

(a) Staff mewn swydd ar 30 Medi.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o arian a roddwyd i ardaloedd adnewyddu tai ymhob blwyddyn er 2003 ar gyfer pob ardal awdurdod lleol? (WAQ49283)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Gweler y tabl isod.

**Adnoddau Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ardaloedd Adnewyddu er 2003**

| **Awdurdod** | **CCA*** | **GCPAA**** | **GCPAA **** | **GCPAA **** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleol** | **2003-04** | **2004-05** | **2005-06** | **2006-07** | **y Dyraniad** |
| Blaenau Gwent | £400,000 | £1,300,000 | £300,000 | £1,000,000 | £3,000,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | £230,000 | £230,000 |
| Caerffili | £685,000 | £1,085,000 | £1,293,000 | £1,510,000 | £4,573,000 |
| Caerdydd | £1,600,000 | £1,680,000 | £1,120,000 | £1,900,000 | £6,300,000 |
| Caerfyrddin | £1,700,000 | £2,200,000 | £2,000,000 | £1,750,000 | £7,650,000 |
| Ceredigion | £200,000 | £650,000 | £900,000 | £1,400,000 | £3,150,000 |
| Conwy | £1,600,000 | £2,000,000 | £1,600,000 | £650,000 | £5,850,000 |
| Sir Ddinbych | £1,700,000 | £1,800,000 | £1,780,000 | £1,450,000 | £6,730,000 |
| Sir y Fflint | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | |
| Gwynedd | £1,600,000 | £1,700,000 | £1,500,000 | £1,300,000 | £6,100,000 |
| Merthyr | £1,955,000 | £2,200,000 | £2,100,000 | £1,800,000 | £8,055,000 |
| Mynwy | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | |
| Castell-nedd/ Port Talbot | £300,000 | £900,000 | £1,450,000 | £1,690,000 | £4,340,000 |
| Casnewydd | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | |
| Sir Benfro | £1,542,000 | £1,800,000 | £1,600,000 | £1,300,000 | £6,242,000 |
| Powys | Dim ardaloedd adnewyddu | £50,000 | £130,000 | £800,000 | £980,000 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | £1,000,000 | £1,000,000 | £2,100,000 | £1,900,000 | £6,000,000 |
| Abertawe | £1,600,000 | £2,150,000 | £2,000,000 | £1,800,000 | £7,550,000 |
| Tor-faen | £1,800,000 | £2,000,000 | £2,106,000 | £1,700,000 | £7,606,000 |
| Bro Morgannwg | £1,000,000 | £850,000 | £1,700,000 | £1,500,000 | £5,050,000 |
| Wrecsam | £1,800,000 | £2,435,000 | £2,100,000 | £1,900,000 | £8,235,000 |
| Ynys Môn | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | Dim ardaloedd adnewyddu | |
| Cyfanswm | £20,482,000 | £25,800,000 | £25,779,000 | £25,580,000 | £97,641,000 |

* Cymeradwyaeth credyd atodol.

** Grant cyfalaf penodol i ardaloedd adnewyddu.

Ffynhonnell Wybodaeth: Y Gyfarwyddiaeth Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.